**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol**
**a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024 trwy Zoom**

**YN BRESENNOL**

Cynrychiolwyr y Cyflogwyr:
Cyng. John Brynmor Hughes
Cyng. Gwynfor Owen
Dafydd Edwards, Trysorydd
Gareth Owens, Clerc yr Awdurdod a Swyddog Monitro

Cynrychiolwyr y Gweithwyr:
Matt Ryan, Undeb y Brigadau Tân
Paul Kay, Cymdeithas y Swyddogion Tân
Geraint Evans, cynrychiolydd System Dyletswydd ar Alwad

Ymgynghorwyr
Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Beccy Marfleet, Swyddog Pensiynau
Martin Morgan, Cronfa Bensiwn Dyfed

Yn Cymryd Cofnodion
Lisa Allington, Cynorthwyydd Gweithredol

**1 YMDDIHEURIADAU**

1.1 Cynigiwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau gan PSTC Millington, y Cynghorydd Bryan Apsley a Terry Ledden, a oedd yn cymryd lle Stuart Stanley ar y Bwrdd Pensiwn Lleol (BPLl).

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Ni chofnodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**3 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

3.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2023 fel cofnod gwir a chywir.

**4 CYLCH GORCHWYL – I'W ADOLYGU**

4.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur y Cylch Gorchwyl arfaethedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 i'r Aelodau.

4.2 Nodwyd mai'r unig newid o arwyddocâd oedd y cynnydd yn nifer yr Aelodau a'r cworwm cysylltiedig. Roedd y newidiadau hyn yn cael eu gwneud i geisio sicrhau y gallai cyfarfodydd barhau pe na bai'r cydweithwyr hynny sydd â chyfrifoldebau gweithredol ac sy'n gorfod mynychu cyfarfodydd cyngor yn gallu mynychu.

4.3 Gofynnodd Aelod a allai cynyddu'r aelodaeth gyda phobl nad oeddent â phrofiad o bensiynau beri risg i'r sefydliad. Ymatebodd PSTC MacArthur y dylai cwblhau'r modiwlau pecyn cymorth rheoleiddwyr pensiynau roi digon o wybodaeth i Aelodau allu cyflawni eu rôl.

4.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cwmpas a gofynion Cylch Gorchwyl y BPLl; a**

**ii) Chymeradwyo'r Cylch Gorchwyl i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn rhinwedd ei swydd fel Rheolwr Cynllun.**

**5 AELODAETH, CADEIRYDD A DYDDIADAU CYFARFODYDD AR GYFER 2024/2025**

5.1 Cyflwynodd PSTC Macarthur bapur i'r Aelodau a gadarnhaodd y trefniadau aelodaeth presennol ar gyfer BPLl Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), i benodi'r Cadeirydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 ac i gadarnhau dyddiadau cyfarfodydd 2024/25.

5.2 Nodwyd bod y dyddiad arfaethedig o 4 Ebrill 2024 yn disgyn yn ystod wythnos y Pasg ac awgrymwyd y dylid gwthio hyn yn ôl i 11 Ebrill 2024. Yn yr un modd, roedd dyddiad 4 Gorffennaf 2024 i'w wthio yn ôl i 11 Gorffennaf 2024.

5.3 Nodwyd bod angen penodi Cadeirydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 a chan fod y Cadeirydd blaenorol wedi dod o ochr y Gweithwyr, byddai angen i'r Cadeirydd hwn fod o ochr y Cyflogwr. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried hyn y tu allan i'r cyfarfod gyda'r bwriad o benodi yn y cyfarfod nesaf ym mis Ebrill.

5.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi aelodaeth gyfredol y Bwrdd Pensiwn Lleol;**

**ii) Nodi'r gofyniad i chwe aelod fod yn bresennol ym mhob cyfarfod i gael cworwm;**

**iii) Penodi Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn Lleol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25; a**

**iv) Nodi dyddiadau'r cyfarfod arfaethedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, gyda'r diwygiadau uchod i ddyddiadau mewn golwg.**

## 6 DIWEDDARIAD PRISIAD GAD

6.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur y papur prisiad GAD i'r Aelodau a gadarnhaodd y sefyllfa bresennol o ran ailbrisio Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru a'r goblygiadau ariannol cysylltiedig ar gyfer costau cyflogwyr.

6.2 Nodwyd bod y cynnydd disgwyliedig yng nghyfraniadau cyflogwyr o 1 Ebrill 2024 wedi'i gynnwys yn y gyllideb, a nodwyd y risg weddilliol o tua £300,000.

6.3 Hysbyswyd yr Aelodau bod rhagdybiaethau'r gyllideb wedi'u gwneud ar y sail y byddai cyfraniadau cyflogwyr yn cael eu hariannu'n rhannol gan y grant SCAPE.

6.4 Mynegodd Aelod bryder, pe bai Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo'r dyraniad grant yn uniongyrchol i'r awdurdodau lleol, efallai na fyddai'r cyllid hwn yn cael ei drosglwyddo i'r Awdurdod Tân yn llawn. Cadarnhaodd PSTC MacArthur y byddai'r neges i'r awdurdodau lleol cyfansoddol ynghylch yr ardoll tân yn pwysleisio'r risg weddilliol a'r posibilrwydd o gyllid yn cael ei gyfeirio atynt hwy.

6.5 Gofynnwyd a oedd mecanwaith ar waith i fynd yn ôl at yr awdurdodau lleol er mwyn gofyn am arian ychwanegol ganddynt, pe na bai'r cyllid grant yn dod drwodd. Cadarnhaodd PSTC MacArthur y gellid cyhoeddi ardoll atodol, gyda chymeradwyaeth gan yr Awdurdod.

6.6 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi sefyllfa ddrafft bresennol prisiad 2020 Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân;**

**ii) Nodi'r cynnydd disgwyliedig mewn cyfraniadau cyflogwyr o 1 Ebrill 2024; a**

**iii) Nodi'r rhagdybiaethau cyllido mewn perthynas â chyfraniadau'r cyflogwr a'r risg weddilliol.**

## 7 ADRODDIAD DIWEDDARU – AELODAETH O'R CYNLLUN

7.1 Cyflwynodd Beccy Marfleet adroddiad Diweddariad Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a oedd â'r nod o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r BPLl ar faterion cyfredol yn ymwneud â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

7.2 Roedd PSTC MacArthur yn teimlo ei bod yn bwysig bod y Bwrdd yn cydnabod yr heriau y mae'r Swyddog Pensiynau yn eu hwynebu

mewn perthynas â'r cynnydd yn y llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â dyfarniadau McCloud ac O'Brien.

7.3 Cytunodd yr Aelodau fod cyfathrebu â staff yn allweddol yn y maes hwn. Roedd clinigau pensiwn eisoes wedi'u cyflwyno a byddai'r gwaith yn parhau i sicrhau bod staff yn deall y broses yn llawn.

7.4 Gofynnodd PSTC MacArthur i Gynrychiolwyr Gweithwyr helpu trwy roi gwybod i staff bod y tîm Pensiynau yn gweithio mor gyflym â phosibl er mwyn eu prosesu. Ar ben hynny, ni ellid cwblhau'r pensiwn terfynol nes bod eu cyflog terfynol wedi'i brosesu. Cymerodd PSTC MacArthur gamau i ddatblygu Cwestiynau Cyffredin a llinell amser ragweledig i'w dosbarthu i staff.

7.5 Cadarnhawyd bod diffoddwr tân gweithredol ar ddyletswyddau wedi'u haddasu wedi'i adleoli yn y tymor byr i helpu yn yr adran bensiynau. Roedd proses recriwtio bellach wedi'i dechrau i gyflogi aelod ychwanegol a phrofiadol o staff ar gontract cyfnod penodol.

7.6 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys yr adroddiad;**

**ii) PSTC MacArthur i ddatblygu deunydd cyfathrebu ar gyfer personél y system dyletswydd ar alwad mewn perthynas â'r ymarfer ail ddewis.**

## 8 ADRODDIAD DIWEDDARU – GWEINYDDWR

8.1 Cyflwynodd Martin Morgan adroddiad gweinyddu pensiynau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) – Ionawr 2024, a oedd yn anelu at roi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer o brosiectau sy'n cael eu cynnal ar yr un pryd, ynghyd â rhoi gwybodaeth am faterion perthnasol wrth weinyddu buddion y cynllun.

8.2 Nododd Martin Morgan fod y gweithgynhyrchwyr meddalwedd yn dal i ddiweddaru'r feddalwedd yn dilyn rhyddhau'r rheoliadau ym mis Medi 2023.

8.3 Dywedodd PSTC MacArthur wrth yr Aelodau fod gwiriadau â llaw ar waith i sicrhau bod y data sy'n cael ei gynhyrchu gan y feddalwedd yn gywir. Cadarnhawyd bod y data hefyd wedi'i archwilio'n llawn.

8.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys yr adroddiad**

## 9 DIWEDDARIAD AR FATERION CYFREITHIOL

9.1 Rhoddodd PSTC MacArthur ddiweddariad llafar i'r Aelodau ar faterion cyfreithiol yn ymwneud â Chynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

9.2 Cadarnhawyd i'r Aelodau y byddai adroddiad manylach yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf i roi diweddariad llawn ar gynnydd yn y maes hwn.

9.3 **PENDERFYNWYD**

**i) nodi cynnwys y diweddariad a roddwyd.**

**10 COFRESTR RISG**

10.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur adroddiad y Gofrestr Risg, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r BPLl am drefniadau rheoli risg.

10.2 Adolygwyd y risgiau ariannol i'r Awdurdod.

10.3 Awgrymwyd y dylid darparu datganiad sicrwydd mewnol i'r BPLl yn flynyddol, gan gynnwys adroddiad llwyddiant, a chytunwyd y dylid cynnwys hyn mewn cynllun yn y dyfodol. PSTC MacArthur i fwrw ymlaen â hyn gyda Chronfa Bensiwn Dyfed.

10.4 Cadarnhaodd PSTC MacArthur fod rhai cyfrifiadau â llaw wedi'u cynnal ar hap fel gwiriad a bod y rhain bob amser wedi cadarnhau'r data.

10.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo asesiad o'r risgiau ariannu sy'n gysylltiedig â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân.**

**11 HYFFORDDIANT**

11.1 Dywedodd PSTC Helen MacArthur y byddai hyfforddiant ymgyfarwyddo yn cael ei gynnig i Aelodau y tu allan i'r cyfarfod.

11.2 Pwysleisiwyd ei bod yn ofynnol i bob Aelod gwblhau'r modiwlau o fewn y Pecyn Cymorth Rheoleiddiwr Pensiynau cyn y cyfarfod nesaf. Dywedodd un Aelod eu bod yn teimlo y byddai'n fuddiol cwblhau'r hyfforddiant eto yn dilyn y dyfarniadau diweddar.

11.3 Gofynnwyd i Aelodau roi gwybod i PSTC MacArthur os oedd unrhyw feysydd yr oeddent yn teimlo bod angen hyfforddiant arnynt mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

11.4 Ar y pwynt hwn, croesawyd yr Aelodau newydd a diolchwyd iddynt am eu cyfraniadau i'r cyfarfod.

11.5 **PENDERFYNWYD bod:**
**i) Pob aelod i gwblhau'r modiwlau Pecyn Cymorth Rheoleiddiwr Pensiynau cyn y cyfarfod nesaf**
**ii) PSTC MacArthur i ddarparu hyfforddiant ar wahân i aelodau newydd i ddarparu gwybodaeth am y cynllun**
**ii) Pob aelod o'r BPLl i ystyried eu gofynion hyfforddi ar gyfer y flwyddyn i ddod.**

## 12 BWRDD CYNGHORI AR Y CYNLLUN

12.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur ei phapur ar Fwrdd Cynghori Cymru ar y Cynllun a oedd yn anelu at roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Bwrdd am faterion a drafodwyd ym Mwrdd Cynghori Cymru.

## 13 MATERION I'W CYFEIRIO AT YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB (ATA)

13.1 Cytunwyd y dylid mynd â'r Cylch Gorchwyl i gyfarfod Awdurdod yn y dyfodol i'w gymeradwyo'n derfynol.

## 14 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

14.1 Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 11 Ebrill 2024 am 09:00 o'r gloch.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:30